**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Gweithgor Craffu - Gwasanaethau Bysus

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 14 Mawrth 2022 am 11.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C A Holley | L James | P K Jones |
| P Lloyd | T M White | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mark Thomas | Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Stuart Davies | Pennaeth Priffyrdd a Chludiant |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Cath Swain | Rheolwr yr Uned Cludiant Integredig |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P Downing, D W Helliwell a G J Tanner

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd Paul Lloyd gysylltiad personol.

2 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

3 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

4 **Adroddiad Gwasanaethau Bysus**

Roedd Mark Thomas, Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, yn bresennol ar gyfer yr eitem hon, ynghyd â Swyddogion perthnasol i ddarparu diweddariad byr o'r hyn sydd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf ym mis Gorffennaf 2021 ac i ateb cwestiynau'r Aelodau.

Trafodwyd y prif faterion canlynol:

- Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i gyflwyno bysus sy'n defnyddio tanwydd glanach. Bydd bysus hydrogen yn brosiect treial yn ardal Bae Abertawe ac ardal Penfro dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Mae'n bosib y gallai fod 50 o fysus hydrogen yn Abertawe.
- Teimlai'r Aelodau fod problemau gyda'r gwasanaethau bysus yn Abertawe y mae angen eu datrys er mwyn cynyddu'r defnydd o fysus, h.y. mae'r bysus yn gwbl annibynadwy, nid yw llochesi bysus yn ddiddos ac mae angen rhagor o safleoedd bysys â gwybodaeth mewn amser go iawn. Hysbyswyd yr Aelodau fod 112 o lochesi bysus yn cael eu disodli ar hyn o bryd ac mae cais am gyllid wedi ei gyflwyno trwy fwrdd y CCE i ariannu'r gwaith o atgyweirio ac amnewid y llochesi bysus sy'n weddill. Cadarnhaodd Swyddogion fod gwasanaethau bysus wedi bod yn annibynadwy gan fod nifer o broblemau wedi codi yn ystod COVID-19. Mae gan rai safleoedd bysus wybodaeth amserlenni electronig ond nid yw mewn amser go iawn. Y gobaith yw y bydd safleoedd bysus sy'n cael eu defnyddio'n fynych yn arddangos gwybodaeth amserlenni mewn amser go iawn yn y dyfodol.
- Dywedodd y Gweithgor fod ganddo ddiddordeb mewn pam nad yw pobl yn defnyddio bysus a theimlai ei fod y broblem o ran agwedd tuag at ddefnyddio bysus a'r diwylliant o gael car. Clywodd yr aelodau fod nifer o resymau pam nad yw pobl yn defnyddio bysus ac mae llawer o ganfyddiadau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Pan fydd y cerbydlu bysus yn dod yn wyrdd, bydd hwn yn gyfle da i newid canfyddiadau.
- Dywedodd y Gweithgor fod treialon yn cael eu cynnal yng Ngogledd Cymru sy'n ymwneud â throsglwyddo tocynnau, ac roedd yn rhywbeth y gallai Abertawe edrych arno. Dywedwyd bod yr holl dreialon yn cael eu cynnal gyda chyfranogiad llawn Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru a bod system docynnau integredig yn rhywbeth y gellid ei rhoi ar waith yn gymharol gyflym gan fod systemau technolegol eisoes ar waith, ond y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddeddfu er mwyn i hyn ddigwydd.
- Holodd y Gweithgor a oedd yr awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru, o ystyried y dyfarniad llys diweddar, wedi ystyried gwasanaethau bysus wedi'u rheoli gan yr awdurdod. Roedd Aelod o’r Cabinet yn credu bod newid ar y gweill, boed hynny drwy ymagwedd newydd Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru at fasnachfreinio neu fod gan yr awdurdod ei wasanaethau ei hun.
- Gofynnodd y Gweithgor beth fydd yn digwydd pan fydd y Cynllun Brys ar gyfer Bysus yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2022 a sut caiff trawsnewidiad ei gyflawni. Cadarnhaodd Swyddogion y bydd cymorth ariannol i gwmnïau bysus bellach yn mynd y tu hwnt i fis Gorffennaf 2022 ond nid oes unrhyw fanylion ar gael eto.
- Ar hyn o bryd, mae'r cwmpas rhwydwaith yn 80% o'r hyn ydoedd yn 2022; Mae nifer y teithwyr yn 60% o'r hyn oeddent yn 2020; Mae nifer y tocynnau consesiynol yn 50% o'r hyn oeddent yn 2020 ac mae llawer llai o fyfyrwyr yn teithio ar fws nag o'r blaen.

## 5 Trafodaeth a Chasgliadau

Trafododd y gweithgor gynnydd a daeth at y casgliadau canlynol:

1. Rydym yn falch o glywed bod llawer o brosiectau a gwelliannau wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, er gwaetha'r Ymchwiliad Craffu ar Gludiant

Cyhoeddus 8 mlynedd yn ôl, ni chafwyd llawer o welliant o ran dibynadwyedd a gwasanaeth fel y mae'r cyhoedd ei eisiau. Mae dibynadwyedd yn allweddol ar gyfer annog rhagor o bobl i ddefnyddio bysus.

2. Roeddem yn teimlo bod angen gwneud y defnydd o fysus yn fwy deniadol i'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Nid y problemau ymarferol a geir wrth ddefnyddio bysus yw'r unig broblem, mae problem ehangach o ran agwedd y cyhoedd tuag at ddefnyddio bysus. O ystyried yr argyfwng hinsawdd, mae angen mynd i'r afael â'r broblem hon o ganfyddiad y cyhoedd.
3. Roeddem yn pryderu bod gan gwmnïau bysus fonopoli a'u bod yn mynd ar ôl llwybrau proffidiol yn unig, gan adael awdurdodau lleol i dendro gwasanaethau ar lwybrau nad ydynt yn broffidiol. Mae'n rhaid i weithredwyr bysus ddarparu gwasanaeth da yn gyntaf cyn y gall unrhyw beth arall newid. Mae angen i Lywodraeth Cymru newid deddfwriaeth a chyflwyno rheoliadau er mwyn gallu dwyn gweithredwyr bysus i gyfrif am ddarparu gwasanaethau, ymysg pethau eraill. Rydym yn annog yr awdurdod i barhau i wneud popeth yn ei allu i symud ymlaen â newidiadau mewn deddfwriaeth i allu dwyn gweithredwyr bysus i gyfrif, i'w gwneud hi'n haws sefydlu cwmnïau bysus trefol ac i alluogi trosglwyddo tocynnau.
4. Roeddem yn teimlo bod cyfarfodydd rheolaidd mewn wardiau rhwng cynghorwyr a gweithredwyr bysus yn bwysig iawn. Argymhellwyd hyn yn flaenorol ac mae angen sicrhau bod hyn yn digwydd.
5. Rydym yn croesawu'r ffaith bod llochesi bysus yn cael eu hatgyweirio neu eu hamnewid. Fodd bynnag, byddem hefyd yn hoffi gweld llochesi bysus, safleoedd bysus ac arwyddbyst yn cael eu glanhau'n rheolaidd.
6. Teimlwn y byddai'n ddefnyddiol cael system loceri sydd ar gael yn rhwydd mewn gorsafoedd bysus i storio siopa etc., fel nad oes rhaid i bobl gario popeth o gwmpas gyda nhw drwy'r dydd ac rydym yn gobeithio y byddwch yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth i hyn.

Yn dilyn y cyfarfod hwn:

Caiff llythyr ei ysgrifennu oddi wrth gynullydd y gweithgor i Aelod y Cabinet sy'n crynhoi'r drafodaeth ac yn amlinellu meddyliau ac argymhellion y gweithgor.

## 6 Er Gwybodaeth: Llythyrau o gyfarfodydd blaenorol

Ystyriodd y Gweithgor y llythyrau o'r cyfarfod blaenorol a nododd yr argymhellion blaenorol ac ymateb Aelodau'r Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45 pm